# ROBERTS, JOHN (1576 - 1610), mynach Benedictaidd a merthyr

**Enw:** John Roberts
**Dyddiad geni:** 1576
**Dyddiad marw:** 1610
**Rhiant:** Robert ab Ellis
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** mynach Benedictaidd a merthyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Emyr Gwynne Jones

Ganwyd yn Nhrawsfynydd yn 1576. Ar sail Pen. MS. 287 tybir bellach mai Robert, un o feibion Ellis ap William ap Gruffydd, Rhiwgoch, ydoedd ei dad, a'i fod felly yn gefnder i Robert Lloyd, Rhiwgoch aelod seneddol tros sir Feirionnydd, 1586-7. Magwyd ac addysgwyd ef fel Protestant, ac ymaelododd yng Ngholeg S. Ioan, Rhydychen 26 Chwefror 1595/6. Yno daeth i gyffyrddiad agos â John (Leander) Jones. Gadawodd Rydychen yn 1598, ac wedi ychydig fisoedd yn Furnival's Inn yn astudio'r gyfraith aeth i deithio'r Cyfandir. Tra ym Mharis troes yn Gatholig, a derbyniwyd ef i Goleg Jesiwitaidd S. Alban, Valladolid, 18 Hydref 1598. Wedi blwyddyn yno, penderfynodd ymuno ag Urdd S. Benet; mabwysiadodd yr enw Fra Juan de Mervinia, ac aeth am gwrs pellach o astudiaeth yn Salamanca. Ordeiniwyd ef yn offeiriad yn 1602, ac ym mis Ebrill 1603 daeth i Loegr fel cenhadwr. Bu bedair gwaith yng ngafael yr awdurdodau, unwaith, ym mis Tachwedd, 1605, yn ystod helynt Brad y Powdr Gwn, ond ar bob achlysur, wedi tymor byr o garchar, dedfrydwyd ef i alltudiaeth. Daliwyd Roberts yn Llundain am y pumed tro yn 1610, cafwyd ef yn euog o uchel frad, a dienyddiwyd ef 10 Rhagfyr. Yr oedd yn un o brif sefydlwyr Coleg S. Gregory, Douai, 1606-7, i hyfforddi offeiriaid ar gyfer y genhadaeth Saesneg, a gwnaed ef yn brior cyntaf y coleg. Efe ydoedd arloeswr diwygiad Urdd S. Benet ym Mhrydain, a'i gyn-ferthyr hefyd.

## Awdur

**Emyr Gwynne Jones**, (1911 - 1972)

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography* (a'r awdurdodau a enwi yno)

T. P. Ellis, *The Welsh Benedictines of the terror* (Drenewydd 1936), 43-54, 76-104, a *The Catholic Martyrs of Wales, 1535-1680*, 79-91


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: John Roberts

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 106837628

Wikidata: Q3399552


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu